

**Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg**  
**3 Tachwedd 2014**  
**Ystafell Gynadledda, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin**

**Yn bresennol**

Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Gâr
Cynghorydd Ryan Bartlett	Cyngor Sir Gâr
Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru
Nerys Burton	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Aled Davies	Cymraeg i Oedolion
Yvonne Davies-Grodzicka	Merched Y Wawr
Anne Dutton	Mudiad Meithrin
Llinos Evans	Cyngor Sir Gâr
Bethan James	Cyngor Sir Gâr
Meinir James	Dyfodol i'r Iaith
Dilwyn Jones	Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru
Gwyn Jones (Cadeirio)	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Meirion Jones	Menter Gorllewin Sir Gâr
Euros Owen	Menter Bro Dinefwr
Dewi Snelson	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cynghorydd Mair Stephens	Cyngor Sir Gâr
Bethan Williams	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Ymddiheuriadau**

Linda Evans	Estyn Llaw
Owain Glenister	Menter Bro Dinefwr
Owain Gruffydd	Menter Bro Dinefwr
Ruth Morgan	Clybiau Gwawr
Catrin Saunders	TWF

<b>1.</b>	<b>Croeso</b> Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gwyn Jones, Cadeirydd Menter Cwm Gwendraeth Elli, a chadeirydd y grŵp partneriaeth Mentrau Sir Gâr.	
<b>2.</b>	<b>Cynrychiolwyr i gyflwyno'i hunain</b> Aethpwyd o amgylch y bwrdd i bawb i gyflwyno'i hunain.	
<b>3.</b>	<b>Cyd-destun a'r sefyllfa bresennol</b> Eglurodd Gwyn Jones fod grŵp Mentrau Sir Gâr, a ffurfiwyd yn 2007 wrth ailstrwythuro'r Mentrau, yn awyddus i ymestyn yr aelodaeth i gynnwys mwy o'r mudiadau sy'n gweithio yn y sir. Roedd Mentrau Sir Gâr yn cynnwys prif swyddog a chadeirydd y tair Menter, cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir a chynrychiolwyr o Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru. Nododd fod ehangu'r aelodaeth yn cyd-fynd gydag un o argymhellion adroddiad <i>Gweithgor y Cyfrifiad</i> i sefydlu fforwm iaith sirol er mwyn gosod ffocws strategol ar adfywiad yr iaith a datblygu cyfleoedd i gydweithio.  Cyfeiriwyd at adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r pwyslais sydd ynddynt o ran pwysigrwydd cydweithio.	

	<p>Soniwyd am adroddiad Dr Dylan Phillips ar ystadegau Cyfrifiad 2011 am yr iaith Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.</p>	
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Diffinio rôl y grŵp</b></p> <p>Cylchredwyd enghreifftiau o Gylch Gorchwyl grwpiau tebyg sy'n bodoli yng Ngwynedd a Cheredigion.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am rôl y grŵp ac a ddylid ymestyn aelodaeth y grŵp i gynnwys sefydliadau eraill. Soniwyd am y mudiadau eraill sy'n bodoli ac yn gweithio yn y sir ac efallai byddai'n werth gwahodd y cymdeithasau cymunedol nad ydynt yn gweithredu'n ddwyieithog. Cynigwyd y byddai'n fuddiol i wahodd CAVS i gynrychioli'r cymdeithasau cymunedol gwirfoddol.</p> <p>Soniwyd bod angen nod sirol ond bod angen gweithredu gwahanol yn lleol.</p> <p>Wrth ddiffinio rôl y grŵp, cyfeiriwyd at</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflawni argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad a bod pawb yn gwybod beth yw eu rôl,</li> <li>• cynllunio ar y cyd,</li> <li>• yr economi,</li> <li>• cadw pobl ifanc yn y sir,</li> <li>• angen cydweithio rhwng y mudiadau cymunedol a'r Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd,</li> <li>• gweithio mewn partneriaeth,</li> <li>• gweithio tuag at ddiwallu anghenion lleol, ond ein bod yn cydweithio a chydlynu gyda'n gilydd er mwyn cyrraedd yr un nod.</li> </ul> <p>Nodwyd byddai'n fuddiol i gael grŵp arall neu is-grŵp i ystyried y Gymraeg ymhlith pobl ifanc. Byddai'r grŵp yn gallu cynnwys staff gwasanaeth ieuencid, staff ysgolion, grŵp gweithredol plant a phobl ifanc, ysgolion, Mentrau iaith, Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc. Cynigwyd y byddai modd ehangu ar fforymau plant a phobl ifanc Menter Cwm Gwendraeth Elli.</p> <p>Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith na ddylai'r fforwm strategol ddyblygu gwaith a dylid cadw'r ffocws ar gydweithio, cydgynllunio a chydlynu.</p> <p>Cyfeiriwyd at ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru 'Bwrw 'Mlaen' a bod yr elfen o gydgynllunio a chynllunio strategol a chydweithio gydag awdurdodau lleol yn bwysig. Cafwyd trafodaeth am adnoddau ariannol a pha adnoddau sydd ar gael. Cyfeiriwyd at y ffynonellau ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd gan gynnwys cronfa canolfannau Gymraeg a chronfa Bwrw 'Mlaen Llywodraeth Cymru. Soniwyd bod cronfeydd cyllid yn pwysleisio cydweithio rhanbarthol ac yn drawsffiniol.</p> <p>Cytunwyd i edrych yn y cyfarfod nesaf ar ba argymhellion sy'n bosib i fudiadau weithredu a'u blaenoriaethu. Cytunwyd hefyd i drafod adroddiad ystadegol Dr Dylan Phillips ac adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n dwyn y teitl 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith'.</p> <p>Cytunwyd i anfon y copïau at aelodau'r grŵp cyn gynted â phosib er mwyn i bawb gael cyfle i'w darllen cyn y cyfarfod nesaf. Soniwyd bod Dylan yn paratoi</p>	

	<p>adroddiad manylach i gyd-fynd gydag ardaloedd y Mentrau. Nodwyd byddai'n fuddiol i Dylan ddod i gyflwyno'u ganfyddiadau pan fyddant yn barod.</p> <p>Cytunwyd i anfon rhestr o argymhellion adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad er mwyn i bawb edrych pwy sy'n gallu cyfrannu at beth cyn blaenoriaethu'r gweithredu yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cynigwyd mai nod y Fforwm Strategol byddai i weld cynnydd yn nefnydd yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau.</p>	
	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b></p> <p>Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf <b>nos Lun, 1 Rhagfyr am 6:30 yn Y Llwyfan.</b></p> <p>Cytunwyd byddai'r Cyngor Sir yn gweinyddu tan fod y Fforwm wedi sefydlu.</p> <p>Soniwyd bydd rhaid cytuno ar Gylch Gorchwyl pendant yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cytunodd Meirion Jones i gadeirio'r cyfarfod nesaf. Diolchodd Cynghorydd Mair Stephens i Gwyn Jones am gadeirio.</p>	